Bioamrywiaeth Cymru
Biodiversity Wales

PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

**Cyfarfod Cadeiryddion Grŵp Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**
**Ffocws: Gwaith Mapio Blaenoriaethau i lywio'r Cynllun Adfer Natur a Chynllunio Ardal**
**8 Hydref 2015**

Yn bresennol: Matthew Quinn (Llywodraeth Cymru), Steve Spode (Llywodraeth Cymru), Caryn le Roux (Llywodraeth Cymru), Sarah Wood (Cyfoeth Naturiol Cymru), Jim Latham (Cyfoeth Naturiol Cymru), Pete Frost (Cyfoeth Naturiol Cymru/Cadeirydd Grŵp Ecosystem Dinesig a Thir Llwyd), Clare Burrows (Cyfoeth Naturiol Cymru/Cadeirydd Grŵp Ecosystem Tir Fferm Caeedig), Chris Tucker (Cyfoeth Naturiol Cymru/Cadeirydd Grŵp Ecosystem Coetir), Jan Sherry (Cyfoeth Naturiol Cymru/Cyd-gadeirydd Grŵp Ecosystem Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir a Chynrychiolydd Ecosystem yr Ucheldir – ar y ffôn), Jonathan Rothwell (Cyfoeth Naturiol Cymru/Arbenigydd Mapio Tir), Dave Thomas (Llywodraeth Cymru/Cadeirydd Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol), Tracey Lovering (Partneriath Bioamrywiaeth Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru), Heather Lewis (Cyfoeth Naturiol Cymru/Cynrychiolydd Ecosystem Arfordirol).

**AMCANION**

i) Rhannu a dangos y defnydd o waith Mapio Blaenoriaethau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, a Mapio Cysylltedd sy'n gysylltiedig, ym maes cynllunio cydnerthedd bioamrywiaeth sy'n seiliedig ar ardaloedd, gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

ii) Ymchwilio ymhellach i sicrhau manteision gwahanol sy'n seiliedig ar ardaloedd y gellid eu derbyn drwy weithredu'r blaenoriaethau hyn, ac wrth ddilyn y saith egwyddor o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (t. 7-8).

iii) Darparu dull i lywio camau gweithredu blaenoriaethol drwy'r Cynllun Adfer Naturiol a Chynlluniau Ardaloedd.

**NODIADAU**

1. Gwnaeth Mathew Quinn, Cadeirydd, osod y cyd-destun ar gyfer y cyfarfod, a chyflwynodd Ddatganiad Polisi Adnoddau Naturiol, gan nodi'r ystyriaethau, a'r risgiau drwy beidio â dilyn dull integredig. Bwriedir cwblhau'r Cynllun Adnoddau Naturiol erbyn Nadolig 2015. Bydd angen i'r Cynlluniau Ardal gwmpasu cydnerthedd bioamrywiaeth. Mae'r awdurdodau lleol yn disgwyl y bydd y cynlluniau ardal yn darparu cyfeiriad clir, gan gynnwys ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus . Mae'r gwaith cryfhau'r Ddyletswydd o dan Ddeddf Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol yn glir. Gwnaeth Martin Quinn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol ailffocysu gwaith grŵp Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru er mwyn cyflawni'r manteision integredig wrth gyflenwi gweithrediadau bioamrywiaeth.
   **http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural- resources-management/environment-bill/?skip=1&lang=cy**

2. Gwnaeth Steve Spode gyflwyno gwaith cydnerthedd Bwrdd Rheoli Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru. Mae saith egwyddor ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy wedi cael eu distyllu oddi wrth y 12 Egwyddor ar gyfer y Dull Ecosystem: meithrin cydnerthedd, rheoli er mwyn sicrhau nifer o

fanteision gwahanol, rheoli mewn modd ymaddasol, yr hirdymor, tystiolaeth, cydweithio a chydweithredu, gweithio ar y raddfa briodol. Ein dealltwriaeth o gydnerthedd yw bod angen inni sicrhau: amrywiaeth, cysylltedd, maint, cyflwr, a chanlyniadau tymor hir. Mae angen creu haenau tystiolaeth i lywio hyn, gan ddefnyddio mapiau cysylltedd, gwaith dadansoddi ar rwydweithiau a gwaith mapio blaenoriaethau.

3. Gwnaeth Clare Burrows ddarparu trosolwg defnyddiol o waith mapio rhywogaethau Glastir. Nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu dangos haenu Glastir er mwyn diffinio 'haenau i sicrhau nifer o fanteision gwahanol' mewn ardaloedd penodol fel y cynlluniwyd, gan nad oedd swyddog Llywodraeth Cymru ar gael. Gwnaeth Claire dynnu sylw i'r ffaith bod llawer o ddata ar gael, ond mai'r peth pwysicaf oedd sut y caiff hyn ei ddwyn ynghyd mewn modd ystyrlon er mwyn llywio'r broses gosod blaenoriaethau. Mae angen cael dadansoddiad o'r data gan arbenigwyr – nid yw'n ddigon i droshaenu data yn unig. Mae gan ardal Elenydd ddata integredig – drwy siawns a blaenoriaeth unigol, nid drwy waith cydweithredol wedi'i gynllunio, sef yr hyn sydd ei angen. Mae angen deall yr ystyriaethau sylfaenol sy'n effeithio ar bresenoldeb neu absenoldeb rhywogaethau. Mae synergeddau gyda modelu cynefinoedd, e.e. cydnerthedd pathewod a chysylltedd cynefinoedd; eto gydag ystlumod pedol lleiaf ac argaeledd gwrychoedd. Mae angen gwaith dadansoddi ar rwydweithiau. Mae sut rydym yn dethol ardaloedd fel blaenoriaethau yn lletchwith iawn gan y gall blaenoriaethu llecynnau pwysig ar gyfer camau gweithredu arwain at hepgor rhywogaethau unigol – crybwyllwyd y barcud coch fel enghraifft. Mae'n bwysig deall yr holl ffactorau sy'n effeithio'n andwyol ar rywogaeth ac nid i ystyried argaeledd ac ansawdd ei chynefin yn unig. Mae tirluniau gwarchodedig yn cynnig cyfleoedd ar gyfer manteision integredig.

**4. Gweithdai Mapio Blaenoriaethau –**

4.1 Gwnaeth Jan Sherry, gyda Jonathan Rothwell, gyflwyno'r gweithdy, gan ddarparu trosolwg o fapiau blaenoriaethau sydd ar gael (wedi'u datblygu gan Grwpiau Ecosystem ar y tir). Gwnaeth CB reoli'r set cyflwyno data GIS gweladwy wrth i JS a JR ymuno â'r cyfarfod ar y ffôn. Dangoswyd y gyfres o **fapiau cysylltedd tir** (a gynhyrchwyd gan Jim Latham); mae'r rhain yn cynnwys byfferau Safleoedd Gwarchodedig. Mae rhwydweithiau blaenoriaethol ar gael ar gyfer pob ecosystem tir, ac mae'r rhain yn darparu offeryn cyfathrebu a mapio cyfleoedd ar gyfer Grwpiau Ecosystem, Partneriaethau Bioamrywiaeth lleol a rhanbarthol, ac eraill. Cytunwyd ei bod yn bwysig eich bod yn penderfynu'r hyn rydych am ei gyflawni drwy unrhyw broses rheoli cysylltedd. Mae JL wedi cynhyrchu mapiau amrywiaeth a helaethrwydd sy'n amlygu ardaloedd ledled Cymru sy'n meddu ar lefel uchel o fioamrywiaeth.

4.2 Mae'r **gwaith Mapio Blaenoriaethau** yn amlygu camau gweithredu blaenoriaethol sy'n ymwneud â bioamrywiaeth genedlaethol y gellir eu cyflawni ar raddfa leol. Gwnaeth y cyflwyniad roi sylw i brinder rhai cynefinoedd, e.e. gweundir yr iseldir, a'r bygythiad i'r ardaloedd eang o laswelltiroedd sydd ar ôl, e.e. rhan ddeheuol Blaenau'r Cymoedd – pwysedd mawr oherwydd datblygiad. Bydd yn bwysig cysylltu'r gwaith Mapio Blaenoriaethau â'r broses o lunio datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru **(CAM GWEITHREDU 1)**. Bydd yr angen i fynegi, cyflwyno a rhannu blaenoriaethau mewn ffurf glir i eraill yn hanfodol, e.e. asiantaethau cefnffyrdd **(CAM GWEITHREDU 2)**. Defnyddiwyd enghraifft cynefin gloÿnnod Britheg y Gors yn Llantrisant. Mae'r tir, wrth ochr parciau busnes, o dan fygythiad oherwydd datblygiad pellach. Fodd bynnag, mae'r glaswelltir corsiog yn darparu

gwasanaeth ecosystem pwysig er mwyn lliniaru'r llifogydd yn y cwm - dylid gwerthfawrogi gwerth y gwasanaeth hwn.

**4.3 Bylchau Tystiolaeth ac angen rhagor o waith -** Mae angen i Banel Cynghori Strategaeth Coetiroedd wella cysylltedd a blaenoriaethau mewn perthynas â Phlanhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol. Mae nifer mawr o Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol o fewn ystâd y llywodraeth a Chyfoeth Naturiol Cymru y gellid eu hadfer. Sut mae'r rhain yn ymwneud â mapiau llifogydd? Cynyddu ardal coetiroedd er mwyn lleihau problemau llifogydd a hyrwyddo cydnerthedd cynefinoedd. Ceir cyfleoedd i sicrhau nifer o fanteision gwahanol drwy adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol, gan eu bod yn cynnwys rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus Mae angen i waith DEFRA ar gynefinoedd mosaig agored gael ei ymestyn a'i fireinio ledled Cymru mewn ardaloedd trefol a lled-drefol. Mae bylchau data hefyd yn anferth mewn perthynas â chynefin tir âr blaenoriaethol (yn enwedig yng ngogledd Cymru) a chyflwr a gorchudd gwrychoedd (bwlch data ar gyfer Cymru gyfan) (**(CAM GWEITHREDU 3)**. Mae newidiadau mewn gorchudd tir yn fater nad yw wedi cael y sylw priodol ers Arolwg Cyfnod 1 (mae gwallau mewn data arolwg yn dal i fodoli). Gall data lloeren, ar y cyd â gwaith arsylwi ar lawr gwlad, ddarganfod rhai newidiadau mewn defnydd tir ond nid yw'n ddibynadwy ar draws pob cynefin. Mae angen dadansoddi arbenigol. Mae map mawnogydd unol ar gael - ydy'n bosibl cynhyrchu mapiau blaenoriaethau ar sail hwn? Technegau adfer mawnogydd - astudiaethau achos yng ngogledd Lloegr. Bwlch tystiolaeth o ran deall y broses storio carbon yng nglaswelltir a gweundir yr ucheldir, neu o ran dal dŵr fel gwasanaeth ecosystem **(CAM GWEITHREDU 4)**. Byddai mapiau llygredd gwasgaredig yn offeryn defnyddiol er mwyn targedu camau gweithredu. Ar y cychwyn, roedd camau gweithredu blaenoriaethol o ran yr ucheldir yn canolbwyntio ar weithrediadau ar raddfa fach, ond yn ddiweddar mae wedi symud tuag at weithrediadau ar raddfa dirlun, e.e. Migneint. Mae'r Fframwaith Ucheldir wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth gan gyrff anllywodraethol er mwyn llywio gwaith yn yr ucheldiroedd (gan gynnwys cydnerthedd/map ardal), ond nad yw wedi'i ddefnyddio ryw lawer gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru na Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae camau gweithredu penodol Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi canolbwyntio ar adar yr ucheldiroedd. Mae setiau data a mapiau dŵr croyw ar gael ar gyfer pyllau a llynnoedd, ond nid yw blaenoriaethau ar gyfer systemau afonydd - gan gynnwys llednentydd - ar gael. Mae angen i Grwpiau Ecosystem Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ailadolygu eu mapiau blaenoriaethau a'u brasluniau ar gyfer camau gweithredu cysylltiedig, gan gadw gyrwyr newid mewn cof, a darparu mapio cyson a chyngor o ran camau gweithredu blaenoriaethol ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r gymuned bioamrywiaeth ehangach yng Nghymru **(CAM GWEITHREDU 5)**.

**4.4 I grynhoi,** gellir defnyddio data mapio blaenoriaethau mewn modd defnyddiol ar raddfeydd gwahanol. Gall gofynion y camau gweithredu blaenoriaethol lywio Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol. Dylai llecynnau pwysig, lle mae angen camau gweithredu blaenoriaethol ar draws ecosystemau o fewn ardal ddynodedig, lywio datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru **(CAM GWEITHREDU 1)**.Mae mapiau amrywiaeth a helaethrwydd hefyd yn darparu offer defnyddiol i gynllunio camau gweithredu blaenoriaethol a chymorth er mwyn deall pa ardaloedd sy'n meddu ar y fioamrywiaeth fwyaf ac o werth mawr o ran natur. Byddai'n ddiddorol gweld faint o droshaeniad sydd yn y ddarpariaeth o wasanaethau ecosystemau yn yr ardaloedd hyn. Bydd y math o bridd a'i gyflwr a'r math o graig yn dylanwadu ar lefel a dosbarthiad y gwaith adfer posibl. Er y gellir defnyddio delweddau lloeren i ryw raddau er mwyn mapio'r defnydd o dir a dangos rhai mathau o orchudd cynefinoedd, ni allant roi gwybod inni am y newid sydd wedi digwydd. Mae gan dirluniau gwarchodedig ddiben integredig cyffredin, ac maent yn bartneriaid pwysig ar gyfer

rheoli – nawr ac yn y dyfodol – llawer o'r llecynnau bioamrywiaeth pwysig yng Nghymru.

**4.5 Gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar ardaloedd** – Arddangoswyd detholiad troshaen o fapiau blaenoriaethau yn eu tro, ar gyfer dwy ardal ddaearyddol wahanol: 1. Bro Gŵyr; 2. Pen Llŷn (y ddwy'n Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol). Canolbwyntiodd y trafodaethau ar gamau gweithredu blaenoriaethol sydd wedi cael sylw, a'r nifer o fanteision gwahanol y gellir eu derbyn drwy reoli ffactorau penodol sy'n effeithio'n andwyol ar fioamrywiaeth. Mae buddion yn cynnwys: ar gyfer twristiaeth, cymunedau lleol, cael mynediad i ansawdd a darpariaeth, buddion iechyd, cyfleoedd arallgyfeirio amaethyddol, ansawdd dŵr ymdrochi, rheoli rhywogaethau estron goresgynnol, manteision i gerddwyr Llwybr Arfordir Cymru ayyb.
Trafodwyd llwyddiant Partneriaeth Tirlun Llŷn, a chytunwyd ei bod yn fodel ardderchog o ddull rheoli integredig sydd wedi cyflawni manteision ar gyfer bioamrywiaeth, cymunedau, busnesau a thwristiaeth. Mae Bro Gŵyr yn bwysig ar gyfer ei rhywogaethau, y gweundiroedd cyffredin ac arfordirol, a'r coetiroedd. Mae'r gwaith integreiddio'r rhywogaethau a gynhaliwyd gan y Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau, y Grŵp Ecosystem Coetir, a'r Grŵp Ecosystem Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir yn darparu deunydd cyfarwyddo ar gyfer datblygu dull integredig i reoli rhywogaethau a chynefinoedd. Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn broblem allweddol, a rheoli rhedyn ungoes hefyd. Mae'r ddau wedi bod yn destun prosiectau i'w rheoli; gwnaeth yr un olaf gynhyrchu compost i'w ddefnyddio'n lleol o dan 'Prosiect Rhedyn Ungoes ar Diroedd Comin Bro Gŵyr'. Mae Bro Gŵyr hefyd yn meddu ar yr ardaloedd mwyaf helaeth o forfeydd heli a chymunedau twyni tywod pwysig. Mae agosrwydd Abertawe, a'r llif blynyddol o dwristiaid i Fro Gŵyr, yn golygu bod Bro Gŵyr wedi'i lleoli'n dda ar gyfer ei defnyddio fel ardal brawf, er mwyn cyfathrebu i'r cyhoedd gwerth a phwysigrwydd rheoli ein bioamrywiaeth, sy'n tanategu ein hiechyd, ein lles a'n llewyrch. Mae'r posibiliadau i ennyn diddordeb gwirfoddolwyr a denu pobl i gymryd rhan mewn gweithgarwch gwyddoniaeth ddinesig yn eang iawn. Mewn cyferbyniad, mae gan Ben Llŷn boblogaeth fach iawn, sy'n cael ei chwyddo'n sylweddol gan dwristiaid yn ystod y tymor gwyliau.

4.6 Mae'r ddwy ardal yn meddu ar safleoedd N2K ac yn cael eu heffeithio gan weithgarwch amaethyddol andwyol, ac maent yn rhannu problemau o ran rheoli'r arfordir, megis gadael i dir fynd yn segur a gwasgfa arfordirol. Gallai treialon o fewn y ddwy ardal ychwanegu at wersi a ddysgwyd oddi wrth dirluniau arfordirol eraill, gan weithredu gwahanol ddulliau. Byddai lledaenu'r llain arfordirol yn fodd pwysig i gyflenwi canlyniadau lluosog ac yn mynd i'r afael â gwasgfa arfordirol, gadael i dir fynd yn segur, a llygredd gwasgaredig, gan greu byffer rhwng y tir a reolir yn ddwys, e.e. ffermydd gwartheg godro Pen Llŷn, gwella ansawdd dŵr ymdrochi, a rhoi sylwi i gynefinoedd N2K a gweithrediadau ynglŷn â rhywogaethau. Ar hyn o bryd, bydd y wasgfa arfordirol yn y ddwy ardal yn cyfyngu ar argaeledd llwybrau arfordir yn y dyfodol wrth i glogwyni meddal a chalchfaen erydu, ac wrth i dir gael ei golli i'r môr. Bydd angen archwilio mentrau sy'n seiliedig ar ganlyniadau gan ddysgu oddi wrth astudiaethau achos, e.e. LIFE Burren, Iwerddon, sef prosiect llwyddiannus wedi'i seilio ar ganlyniadau **(CAM GWEITHREDU 6)**. Gellid gweithredu opsiwn cydweithredol y Cynllun Datblygu Gwledig **(CAM GWEITHREDU 7)**.

4.7 Roedd materion a chyfleoedd allweddol yn cynnwys bygythiadau yn y presennol a'r dyfodol, e.e. cynefinoedd dan fygythiad oherwydd gwasgedd datblygiad, gweithgarwch amaethyddol sy'n arwain at golli ansawdd cynefin a'i ddirywiad, e.e. llygredd gwasgaredig a llygredd ffynhonnell benodol, cyfleodd ar gyfer busnesau a chymunedau lleol, meithrin cydnerthedd drwy archwilio opsiynau cysylltedd, erydiad arfordirol a rheolaeth amaethyddol a'r wasgfa arfordirol yn ei sgil,

partneriaethau presennol a phartneriaethau newydd posibl, rhywogaethau estron goresgynnol, e.e. creigafalau ar arfordir deheuol Bro Gŵyr, Llwybr Arfordir Cymru - cyfleoedd a risgiau, e.e. ffermwyr yn llai bodlon i bori'r clogwyni sy'n arwain at golli cynefinoedd wedi'u pori'n isel neu fosaigau glaswelltir/gweundir, mecanweithiau posibl i fynd i'r afael â ffactorau andwyol, mentrau cynllun datblygu gwledig, a manteision integredig. Mae angen i gamau gweithredu gynnwys egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (gweler isod). Mae angen dull seiliedig ar ddatrysiadau i gyflawni nifer o fanteision gwahanol, lle gellir cyflawni buddion amlwg ar gyfer bioamrywiaeth ac iechyd a lles dynol. Dylai Grwpiau Partneriaethau Bioamrywiaeth Cymru ailystyried materion sy'n wynebu eu cynefinoedd priodol, ac ystyried cynhyrchu mapiau wedi'u ffocysu ar ddatrysiadau. Dylai'r mapiau ddangos y nifer o fanteision a gafwyd drwy weithrediadau bioamrywiaeth a fydd yn cyflenwi dyheadau ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf yr Amgylchedd, y Cynllun Adfer Natur a Deddf Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol **(CAM GWEITHREDU 8)**.

4.8 Agorwyd haenau mapio blaenoriaethau ar gyfer Gwent gan ei bod yn hysbys ei bod yn llecyn pwysig ar gyfer rhai rhywogaethau. Fodd bynnag, mae rhan helaeth o'r tir yn cael ei reoli'n ddwys ar gyfer amaeth, ac ychydig iawn o gynefin o ansawdd sydd ar ôl. Nid oedd mapio blaenoriaethau yn ffocysu gweithrediadau yn yr ardal hon, ond cytunwyd y byddai'r ardal yn elwa ar blannu ar hyd glannau'r afonydd er mwyn lliniaru llifogydd a darparu byffer er mwyn arafu'r elifion oddi ar y tir wedi'i reoli'n ddwys i'r cyrsiau dŵr gan leihau'r broses siltio a'r llygredd (ac yn cynorthwyo i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr). Byddai cadw anifeiliaid fferm i ffwrdd o gyrsiau dŵr hefyd o fudd uniongyrchol o ran gwella ansawdd dŵr a chyflwr cynefinoedd rhywogaethau dŵr croyw a glannau'r afonydd.

**A wnaeth y gweithdy ddarparu methodoleg i gynhyrchu ardaloedd ffocal, a all lywio gwaith cydnerthedd? A ellid y dull hwn gael ei ledaenu ar draws Cymru? Sut rydym yn cyfathrebu hyn i bartneriaid a phartneriaethau ?**

4.9 Mae'r gweithdy wedi dangos bod y set ddata mapio blaenoriaethau, y mapio cysylltedd, dull sicrhau nifer o fanteision gwahanol, a dull seiliedig ar ganlyniadau sy'n defnyddio astudiaethau achos presennol yn gallu llywio'r broses gwneud penderfyniadau seiliedig ar ardal gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r gymuned Gymreig ehangach, ac fe ddylid eu defnyddio i wneud hyn. Mae pwysigrwydd defnyddio arbenigwyr er mwyn deall a chyfathrebu defnydd y setiau data yn amlwg. Mae pwysigrwydd cyflwyno a darparu negeseuon clir o ran canlyniadau manteision lluosog i'r bobl sy'n gwneud y penderfyniadau a'r cyrff cyllido yn hollbwysig. Mae angen dull seiliedig ar ddatrysiadau o ran cyflawni nifer o fanteision, lle gellir cyflawni a dangos buddion amlwg ar gyfer bioamrywiaeth ac iechyd a lles dynol.

DRAFT

**CYFARFOD CADEIRYDDION GRŴP PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 16 – CAMAU GWEITHREDU**

| Rhif | Cam gweithredu | Pwy | Erbyn |
|---|---|---|---|
| **Camau gweithredu newydd – 8 Hydref 2015** | | | |
| 1. | Mae'n bwysig cysylltu'r gwaith mapio blaenoriaethau â chynhyrchiad datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae angen i gadeiryddion polisi bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ymgysylltu'n uniongyrchol â rheolwyr a swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau y deallir data mapio blaenoriaethau a'i fod wedi'i ymgorffori mewn cynlluniau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru, e.e. llecynnau pwysig ar gyfer camau gweithredu blaenoriaethol mae eu hangen o fewn ardal wedi'i mapio. | Cadeiryddion Polisi Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru | |
| 2. | Bydd yr angen i fynegi, cyflwyno a rhannu blaenoriaethau mewn ffurf glir i eraill yn hanfodol o ran eu hannog i gynnwys camau gweithredu oddi mewn eu cynlluniau, e.e. asiantaethau cefnffyrdd. Bydd grwpiau'n ystyried sut bydd data mapio blaenoriaethau yn cael ei gyfathrebu a'i rannu, ac a oes partneriaid y dylai'r grŵp ymgysylltu â nhw er mwyn galluogi cyflawni camau gweithredu. Bydd grwpiau yn cytuno ar gysondeb yn y neges ynglŷn â sut bydd camau gweithredu yn arwain at nifer o fanteision gwahanol, ac yn sicrhau y bydd data yn cael ei ddarparu mewn ffurf sy'n gweddu i'r defnyddiwr terfynol. | Cadeiryddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a chynrychiolwyr grwpiau | |
| 3. | Mae bylchau data'n anferth mewn perthynas â chynefin tir âr blaenoriaethol (gogledd Cymru yn enwedig), ac mewn perthynas â gorchudd a chyflwr gwrychoedd (bwlch data ar gyfer Cymru gyfan). Bydd Grŵp Ecosystem Tir Fferm Caeedig yn mynd i'r afael â'r bylchau drwy fecanweithiau megis Prosiect Bylchau Tystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth a thrwy fentrau'r Cynllun Adfer Natur. | Grŵp Ecosystem Tir Fferm Caeedig a pholisi Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru. | |
| 4. | Bwlch tystiolaeth o ran deall y gallu i storio carbon yng nglaswelltir a gweundir yr ucheldir; hefyd bwysigrwydd y systemau hyn o ran dal dŵr - mae angen cydnabod y rhain fel gwasanaeth ecosystem ychwanegol ac ased gwerthfawr i'w reoli. Bydd Grŵp Ecosystem yr Ucheldir yn ychwanegu'r ddau fwlch uchod at y Gofrestr Bylchau Tystiolaeth, os nad ydynt eisoes wedi cael y sylw priodol. | Grŵp Ecosystem yr Ucheldir | |
| 5. | Mae angen i Grwpiau Ecosystem Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ailadolygu eu mapiau blaenoriaethau a'u brasluniau , gan gadw gyrwyr newid mewn cof, a darparu mapio a chyngor cyson o ran camau gweithredu blaenoriaethol ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r gymuned bioamrywiaeth ehangach yng Nghymru. | Bydd cadeiryddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru'n arwain y grwpiau er mwyn | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cyflenwi. | |
| 7. | Mae angen archwilio mentrau sy'n seiliedig ar ganlyniadau gan ddysgu oddi wrth astudiaethau achos, e.e. LIFE Burren, Iwerddon, sef prosiect llwyddiannus sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Ffocws posibl ar gyfer cyfarfod nesaf Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru? | Cadeiryddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (gwahodd cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru i rannu dysgu) | |
| 8. | Gellid gweithredu opsiwn cydweithredol y Cynllun Datblygu Gwledig. Bydd Caryn le Roux yn gwneud gwaith dilynol ac yn adrodd yn ôl i gadeiryddion Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. | Caryn Le Roux | |
| 9. | Dylai grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ailystyried materion sy'n wynebu eu cynefinoedd priodol, ac ystyried cynhyrchu mapiau wedi'u ffocysu ar ddatrysiadau. Dylai'r mapiau ddangos y manteision lluosog a geir drwy weithrediadau bioamrywiaeth a fydd yn cyflenwi dyheadau ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf yr Amgylchedd, y Cynllun Adfer Natur a Deddf Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd. | Bydd cadeiryddion Partneriaeth Bioamrywiaeth yn arwain eu grwpiau. | |
| | **Camau gweithredu a barhawyd** | | |
| 10. | Bydd Matthew yn trafod â Ceri p'run ai all Cyfoeth Naturiol Cymru ailsefydlu swydd Ecolegydd Ucheldir. | MQ | |
| **Camau gweithredu parhaus i gadeiryddion (eitemau sefydlog ar gyfer agendâu cyfarfodydd grŵp)** | | | |
| 13. | **Aelodaeth y grwpiau:**<br>Diweddaru manylion aelodau'r grwpiau a'u hanfon at Ysgrifenyddiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.[1] | Bydd Cadeiryddion Grwp yn arwain. | |
| 14. | **Prosiect Bylchau Tystiolaeth:**<br>http://www.biodiversitywales.org.uk/Prosiect-Bylchau-Tystiolaeth-PBC<br>Bydd pob cadeirydd yn rhannu adborth ar y bwrdd bylchau tystiolaeth gyda'u grwpiau, a ddarperir gan yr Athro Mike Bruford (gweler colofnau I.J.K yn y *Gofrestr Bylchau Tystiolaeth* Tach V2 a:<br>1) Rhoi sylw i sylwadau/gwybodaeth ddilynol/dolenni cysylltiedig. Efallai y bydd angen y canlynol:<br>• trafod bylchau penodol gyda chysylltiadau newydd fel yr awgrymwyd;<br>• adolygu'r bwlch yng ngoleuni tystiolaeth/papurau presennol mae Mike wedi eich cyfeirio chi atynt;<br>• adolygu'r bwlch (os yn addas ar gyfer ymchwil) gan ddilyn y | Bydd Cadeiryddion Grwp yn arwain | |

**Comment [TL1]:** Invite speakers, where possible – if arrange to follow on or precede Llyn Landscape Partnership celebration event in Spring in NW Wales, then Burren project reps may be in Wales, and able to present?

DRAFT

[1] smchugh@wtwales.org

| | | |
|---|---|---|
| | canllawiau *Ysgrifennu Cwestiynau ar gyfer Ymchwil Wyddonol* (ar dudalen y prosiect ar y we);<br>• rhannu bwlch ar raddfa fawr yn is-gwestiynau cyfansoddol a all fod yn addas ar gyfer prosiectau cysylltiedig ar wahân.<br>2) Ailedrych ar flaenoriaethau bylchau tystiolaeth grŵp ac amlygu'r rhain ar y gofrestr bylchau tystiolaeth (coch=uchel, oren=canolig, melyn=isel).<br>3) Cytuno ar eich arweinydd grŵp prosiect ymchwil ar gyfer pob bwlch tystiolaeth blaenoriaeth uchel (os yn addas ar gyfer ymchwil); bydd yr arweinydd yn datblygu a chyflwyno Cynnig Prosiect cyflawn ar gyfer pob prosiect ymchwil i TL.[2] | Bydd Cadeiryddion Grwp yn arwain |
| 15. | **Gwe dudalennau grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru:**<br>Bydd yr ysgrifenyddiaeth/cadeiryddion yn diweddaru tudalennau grwpiau ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru[2]. Bydd y tudalennau yn cynnwys rhestr aelodau'r grwpiau, agendâu cyfarfodydd/camau gweithredu/rhaglenni gwaith/prosiectau gan gynnwys rhai wedi eu cyllido gan y Gronfa Gwydnwch Ecosystemau/cynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth o dan grŵp/mapio blaenoriaethau/manylion cyswllt a dolenni defnyddiol.<br>Anfon diweddariadau tudalennau at Sean McHugh. | Bydd Cadeiryddion Grwp yn arwain |
| 16. | **Mapio blaenoriaethau**:<br>1. Bydd y grwpiau yn trefnu cyfleoedd ymgysylltu'n lleol â phartneriaethau/rhwydweithiau/fforymau bioamrywiaeth i rannu data mapio blaenoriaethau ac yn ceisio cyfleoedd i gyflenwi camau gweithredu'n lleol ac yn strategol. Dylid estyn gwahoddiad i'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau roi cyflwyniad mewn unrhyw ddigwyddiad a drefnir. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn anfon copïau o'r trefniadau at Ysgrifenyddiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.<br>2. Gwirio a oes angen diwygiadau naill ai i'r maes neu'r camau gweithredu a restrir ar set ddata mapio blaenoriaethau'r grŵp. Bydd arweinydd dirprwyedig yn casglu unrhyw newidiadau ac yn darparu mapiau GIS diwygiedig terfynol, a chamau gweithredu cysylltiedig, i Clare Burrows[3] | Bydd Cadeiryddion Grwp yn arwain |
| 17. | **Trefnu cyfarfodydd:**<br>Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn darparu dyddiadau, agendâu, camau gweithredu, diweddariadau ar gyfer/gan yr holl gyfarfodydd grŵp i dîm Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru[4] a Thîm Polisi Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru[5]. | Bydd Cadeiryddion Grwp yn arwain |

**EGWYDDORION RHEOLI ADNODDAU NATURIOL YN GYNALIADWY**
**http://gov.wales/docs/desh/publications/150914-natural-resources-policy-statement-cy.pdf**

**Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae'r Bil yn darparu ar gyfer nifer o egwyddorion sy'n sail i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac sydd hefyd**

[2] http://www.biodiversitywales.org.uk/Gr-p-Arbenigol-ar-Rywogaethau
[3] Clare.Burrows@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
[4] h.york@wtwales.org smchugh@wtwales.org
[5] Jenni.Hartley@wales.gsi.gov.uk

yn darparu'r dull a fydd yn cael ei ddefnyddio i wneud hynny. Mae pob un o'r egwyddorion yr un mor berthnasol â'i gilydd.

| | |
|---|---|
| **Meithrin cydnerthedd** | **Mae ecosystem gydnerth yn un iach sy'n gweithio mewn ffordd sy'n caniatáu iddi fynd i'r afael â'r pwysau a'r galwadau sydd arni. Mae'n gallu esgor ar fanteision yn yr hirdymor er mwyn diwallu'r anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sydd ohoni ar y pryd.** |
| **Rheoli er mwyn sicrhau nifer o fanteision gwahanol** | **Mae'n hecosystemau'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau a manteision ar ein cyfer. Mae angen inni ystyried pob un ohonynt wrth benderfynu sut i'w defnyddio, a hynny er mwyn iddynt esgor ar nifer o fanteision gwahanol yn y tymor hir.Mae hyn yn cynnwys ystyried eu gwerth cynhenid.** |
| **Rheoli mewn modd ymaddasol** | **Mae prosesau a swyddogaethau ecosystemau yn gymhleth ac yn amrywiol, a byddwn yn gweithio mewn ffordd ymaddasol gan ganolbwyntio ar ddysgu gweithredol a fydd yn seiliedig ar fonitro ac ar ganlyniadau. Byddwn hefyd yn ystyried yr oedi cyn i ecosystemau ddechrau teimlo effaith ymyriadau, a hefyd yr amser y maent yn ei gymryd i ymateb i'r ymyriadau hynny. Bydd yn fater o 'ddysgu drwy wneud'.** |
| **Yr hirdymor** | **Mae'n bwysig hefyd ein bod yn ystyried y canlyniadau a gaiff camau gweithredu yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir ac yn ystyried yr oedi cyn i ecosystemau ddechrau teimlo effaith ymyriadau, a hefyd yr amser y maent yn ei gymryd i ymateb i'r ymyriadau hynny.** |
| **Tystiolaeth** | **Mae hyn yn golygu casglu gwybodaeth ac ystyried yr holl dystiolaeth gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol (gan gynnwys tystiolaeth am unrhyw ffactorau nad oes sicrwydd yn eu cylch) oddi wrth amrywiaeth eang o arbenigwyr a rhanddeiliaid ar y lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, fel y bo'n briodol, a hynny er mwyn nodi blaenoriaethau a chyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol ac er mwyn cyflawni'r camau rheoli.** |
| **Cydweithio a chydweithredu** | **Mae'n fater o sicrhau cyfathrebu dwy ffordd ar draws y lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol ac yn fater hefyd o sicrhau cysylltiadau rhwng polisïau, prosesau a phobl er** |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | **mwyn rhoi diwedd ar weithio mewn seilos. Drwy wneud hynny, bydd modd datblygu a gweithredu'r atebion newydd ac arloesol sydd eu hangen.** |
| **Gweithio ar raddfa briodol** | **Mae ecosystem yn uned weithredol sy'n gallu gweithredu ar unrhyw raddfa, gan ddibynnu ar y broblem neu'r mater sydd o dan sylw ar y pryd.** |

Tracey Lovering
Cydlynydd cadeiryddion grŵp Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Tracey.Lovering@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ffôn symudol: 07779 010580

06/11/15

DRAFT